# YMGYRCH CYMRU

CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU Rhifyn 4 Gorffennaf - Awst 1987 (Copi ychwanegol 15c)


## DA IAWN, GYMRU

**Wedi canlyniadau'r Etholiad Cyffredinol, beth nesaf?**
Ar waethaf mwyafrif sylweddol Mrs Thatcher yn Lloegr, mae'r sefyllfa yng Nghymru a'r Alban yn dra gwahanol. Enillodd y pleidiau sy'n gefnogol i bolisi amddiffyn di-niwcliar fwyafrif mawr o'r seddau yng Nghymru, gyda 24 aelod Llafur, 3 Plaid Cymru a 3 Rhyddfrydol yn y Tŷ Cyffredin newydd (sydd bellach yn cynnwys 8 Tori'n unig). Enillodd 4 ymgeisydd Llafur ac 1 Plaid Cymru (cefnogwyr neu aelodau CND i gyd) seddau oddi ar y Toriaid. Dengys hyn yn eglur nad oes i'r Toriaid rym i hawlio polisi amddiffyn niwcliar i Gymru.

**Rhaid** i'r sefyllfa hon roi inni gyfle newydd i weithredu ac ymgyrchu yng Nghymru yn effeithiol er mwyn cryfhau ein cefnogaeth fwyfwy.

Efallai mai'r flaenoriaeth gyntaf yw argyhoeddi nad yw CND yn mynd i ddiflannu. Mae cefnogaeth bron i hanner poblogaeth Cymru gennym (mae angen mwy!). A ddylai pob un ohonom sicrhau un cefnogwr pendant ychwanegol i CND Cymru cyn mynd ar ein gwyliau?

Pleidleisiodd pobl Cymru ar lefelau cenedlaethol, sirol, dosbarth a chymunedol, am Gymru Ddi-Niwcliar. Er mwyn hoelio sylw ar ein hamcanion, 'rydym yn bwriadu gweithredu ym Mreudeth, Caerwent a'r Swyddfa Gymreig yn ystod y misoedd nesaf a rhoddir sylw arbennig i Ddiwrnod Hiroshima yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog. Rhan fechan iawn o'r gweithredu yw hyn, fodd bynnag, o'r cwbl sydd ar droed ledled Cymru gan y grwpiau heddwch lleol sydd yn aml yn cydweithredu â grwpiau perthnasol eraill er sicrhau mwy o gefnogaeth.

Gyda'r arweiniad sydd yn awr yn deilliaw o'r Undeb Sofietaidd mae gobaith am sicrhau mesurau **diarfogi** sylweddol. Yn y gorffennol, canolbwyntiwyd ar ymgyrchu yn erbyn sistemau megis Cruise a Trident, ond y mae'n rhaid bellach weithredu'n gadarn i roi pwysau ar y Llywodraeth i amcanu at gytundebau diarfogi effeithiol. Mae gan y mudiad heddwch gyfle i gynrychioli safbwynt pobl Cymru a sicrhau ymateb positif i gynigion Gorbachev.

Rhaid inni ganolbwyntio â'n holl egni ar sicrhau polisiau diarfogi a di-niwcliar, a phwysleisio mor gadarn ag sydd modd y gwastraff gwarthus mewn adnoddau sy'n cael eu cyfeirio at greu arfau distryw anferthol tra mae cymaint o amddifadu yng Nghymru, a dros hanner y byd yn cael ei fygwth gan dlodi a newyn.

## DIWRNOD HIROSHIMA

**Eisteddfod Genedlaethol**
**Bro Madog**
**AWST 6**

## EDRYCH YMLAEN

**Gorff. 4** Diwrnod Annibyniaeth America
Gwrthdystiad a 'Caseg Eira' ym Mreudeth. Protest yn erbyn safleoedd niwcliar Americanaidd yng Nghymru Ddi-Niwcliar.
12.00 — Newgale Sands
1.00 pm — Gorsaf dracio llongau tanfor yr U.D. Breudeth.
Awyrgylch garnifal, gyda rhai pobl yn cyflawni'r brotest symbolaidd o 'dorri'r wifren'.


**Gorff. 11** 'Caseg Eira' Caerwent. Cysylltu â Carol Hancock (0633) 881 741.

**Gorff. 17** Lansio casgliad Cerddi Heddwch yng Nghaerdydd. (Eglwys San Steffan, Bute Town)

**Gorff. 31** Lansio'r cerddi heddwch ger Porthmadog (Oakley Arms Hotel, Tanybwlch, Porthmadog)

**Awst 1–9** Eisteddfod Bro Madog, Porthmadog. Cefnogwch babell CND Cymru, ac ar:

**Awst 6** DIWRNOD HIROSHIMA — gorymdaith yn gadael Tremadog am 10 o'r gloch – pasio drwy Borthmadog i gae'r Eisteddfod. Yno, fe gasglwn gefnogaeth i'r 'Gadwyn Heddwch' yn barod i amgylchynu'r Pafiliwn am hanner dydd. Dewch â'ch baneri, a sicrhewch y byddwch yno mewn coffadwriaeth gollwng y bom atomig cyntaf ar Awst 6 1945.
BYTH ETO HIROSHIMA — rhaid i ni beidio anghofio.




*Gorymdaith i harbwr Abergwaun Diwrnod Hiroshima 1986.*

# Y Cysylltiad rhwng Cymdeithas yr Iaith a'r Mudiad Heddwch

Pe bawn i'n gorfod tynnu darlun o'r cyswllt rhwng y mudiad heddwch a'r iaith diau y byddwn yn dangos llun o'r Preselau ac arno lun o Waldo. Dyma berson a welodd yn glir y cysylltiad rhwng heddwch a pharhad yr iaith cans fe welodd ddyfodiad y pwerau dinistriol sef militariaeth fel bygythiad uniongyrchol i barhad cymunedau bychain ym mro'r Preseli.

Rwy'n cofio clywed am Waldo'n dod allan o garchar a minnau'n ddeg oed ar y pryd. Rhyfeddu bod fy chwaer fawr yn mynd i groesawu rhywun allan o Garchar! Roedd y peth yn ddryswch pur. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach fe ymunais â Chymdeithas yr Iaith a CND ynghanol y chwedegau a dechrau deall. Ond gan fod CND yn rhywbeth ymhell i ffwrdd mewn swyddfa yn Llundain fe fues i'n un o'r aelodau taledig a dyna i gyd ... hyd nes i Freudeth ddigwydd a Chomin Greenham ddechrau'r wythdegau.

Roedd mudiadau eraill yn y chwedegau a ymddangosai'n agosach at y Gymdeithas: dyna i chi raliau mawr Llundain Gwrth-apartheid a ninnau yno am y credem mewn cyfiawnder i bob dyn ... Ie dyn! Mudiad y merched yn ein gwneud i sylweddoli'r anghyfiawnder ynghylch bywydau merched ... annhegwch dwbwl felly yn wynebu rhai ohonom ... fel merched, fel Cymry Cymraeg ... llef y lleiafrifoedd oedd hefyd yn fwyafrif ... Annhegwch yw gwraidd y cyswllt rhwng y ddeubeth ... y diystyru anghenion syml pobl ... a ddeillia wedyn o agwedd batriarchaidd.

Mae trais yn ein byd wedi ei ddefnyddio yn hanesyddol i gynnal ecsploitiaeth economaidd. Unwaith eto daw'r ddau fudiad yn agos at ei gilydd ... oherwydd nid grym yn nhermau'r byd sydd gan y naill beth na'r llall 'heddwch' a 'iaith' ond NERTH ... rwy'n ofni'r gair grym am ei fod yn air rhy arw o wrywaidd. Ond y mae nerth yn gallu bod yn ysbryd sy'n gadarnhaol o bositif.

Ac mae bodolaeth arfau niwcliar ac yn wir arfau yn Drais ar ysbryd a chorff. Mae'r ymgais i ddileu iaith drwy beidio â'i defnyddio neu ei chynnal hefyd yn fath arall ar drais. Felly mae'n rhaid inni fel aelodau o Gymdeithas yr Iaith ymladd ar ddau ffrynt ... er atal dilead o'r hyn sy'n agos atom, a hefyd yr hyn sy'n fyd eang sef hyrwyddo hawliau gwledydd a ieithoedd byd i fyw heb yr ofn o ryfel.

Y mae bod yn gymdeithas ddi-drais hefyd yn unwedd â'n hanian a natur ein cymdeithas, sef cymdeithas sydd yn parchu pobloedd a dim ond yr egwyddor honno sy'n flaenllaw yn y mudiad heddwch. Dilyn ysbryd Martin Luther King drwy ymwrthod â 'thrais tafod', 'trais calon' a 'thrais dwrn'.

Mae'n rhaid inni fel cymdeithas beidio â bod yn hunan fodlon ein byd. Gwyddom fod y daith yn un bell. Ond o leiaf fe lwyddom i wneud yr iaith (beth bynnag fo'r farn) yn destun siarad, atgasedd trasech a gwawd. Rhaid inni ddisgwyl i'r mudiad heddwch hefyd fynd drwy'r un broses a gwneud i bawb siarad am heddwch fel pe baen nhw'n siarad am brand o goffi! Ys dywedodd un ymgyrchwr yn America adeg Fietnam ... 'y gwrthwyneb i gariad yw nid casineb ond difaterwch'.

Rhaid i'r Gymdeithas a'r mudiad heddwch barchu ei gilydd a dyma'r man sydd efallai hyd yma yn boenus i'r gwrth Gymraeg o ymgyrchwyr sydd â barn imperialaidd pan ddaw'n gwestiwn o iaith! Maen nhw yn y lleiafrif, diolch fyth! Ond rhaid wrth wrthdaro i greu newid. Yn y fan hon yr ydym fel cymdeithas wedi dod wyneb yn wyneb â'r dorf wrthwynebus tra bo'r mudiad iaith hyd yma wedi tueddu i raddau i ganolbwyntio ar ganolfannau milwrol.

Ond pan ddaw'n fater o wrthdaro gobeithiwn y bydd aelodau o Gymdeithas yr Iaith a'r Mudiad Heddwch yn *un* wrth geisio argyhoeddi Cymry Cymraeg a'r di Gymraeg am ein nod. Yn y fan hon y maen nhw'n rhyfedd o debyg, sef yr angen i newid y byd a'i greu'n fyd mwy ystyrlon a thangnefeddus ... fel y medrwn fyw oll mewn byd o gariad a chyfiawnder cymdeithasol, a thrwy iaith ein dymuniad heb ormes na thrais.

*Menna Elfyn*

# Ddylen ni dalu am ynni niwcliar?

Mae Ymgyrch Defnyddwyr yn Erbyn Ynni Niwcliar (CANE) sydd wedi ei drefnu yn ôl rhanbarthau, yn brotest yn erbyn y defnydd o'ch arian i gynnal rhaglen niwcliar Prydain. Un ffordd uniongyrchol o brotestio yw trwy gadw'n ôl gyfran symbolaidd (17%) o'ch bil trydan bob chwarter, gan roi gwybod i'ch bwrdd trydan lleol beth yw'r rhesymau dros eich gweithred. Dylid gyrru'r gyfran honno o'ch bil (sydd yn cynrychioli'r cyfartaledd o drydan o gynhyrchwyd gan ynni niwcliar) at eich cyd-gysylltwr rhanbarthol i'w ddal mewn cyfamod i chi nes byddwch chi ei angen. Mae hyn yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol ychwanegol i chi, am ei fod yn brawf fod anghydfod go iawn rhyngoch a'ch bwrdd, ac nad ydych yn ceisio osgoi talu. Yn y dull hwn medrwch agor trafodaeth gyda'ch bwrdd trydan. Does dim rhaid i chi ofni cael eich datgysylltu gan ei fod yn dibynnu ar yr unigolyn pa mor bell yr aiff ei brotest. Bydd yr arian a gedwir mewn cyfamod i chi yn cael ei ad-dalu'n brydlon cyn gynted ag y byddwch chi'n teimlo'n rhy anghysurus, a gellwch chi ddechrau ei gadw'n ôl eto pan ddaw'r bil chwarterol nesa.

Ni fedrir datgysylltu eich cyflenwad trydan heb eich caniatâd neu heb warant ustus, ac mi fyddech yn cael digon o rybudd.

Bydd y llog ar arian a gedwir yn ôl ynghyd â chyfraniadau a phres a godir trwy weithgareddau codi pres yn mynd tuag at gynnal ein gweithgareddau a hefyd ymchwil i sustemau ynni adnewyddol.

Mae pecyn gwybodaeth ar gael oddi wrth y CANE neu oddi wrth Ymgyrch Defnyddwyr Cymru (tua 40c, mae'n cael ei ailargraffu): mae hwn yn arweinlyfr ardderchog i'r mater ac yn rhoi syniad i chi o wahanol ymatebion tebygol y Bwrdd Trydan. Ceir llythyrau enghreifftiol ar gyfer y rheini sy'n cael sgrifennu llythyrau'n faich. Mae gennym hefyd sieciau gwrth-niwcliar a phamffled gwych a chynhwysfawr ar 'Nuclear Power Conservation and the Renewables' (hefyd tua 40c). Mae gan CANE restr gyflawn o nwyddau ac yn darparu cefnogaeth a syniadau. Eu cyfeiriad yw:

Consumers against Nuclear Energy
PO Box 697
Llundain NW1 87Q

Cyfeiriad y cysylltwr rhanbarthol y dylid anfon arian ato ydyw:

Ymgyrch Defnyddwyr Cymru
Ffarm Crug, Ferwig, Aberteifi, Dyfed.

Anfonwch at y cyfeiriad uchod os oes gennych ddiddordeb yn yr ymgyrch neu os hoffech fwy o wybodaeth neu os carech dderbyn ein cylchlythyr.

# Gwaharddiad go iawn ar brofi arfau niwcliar?

Mor bell yn ôl ag 1958 dechreuodd America, Rwsia a Phrydain drafod gwahardd profi arfau niwcliar a chytunwyd ar waharddiad a adnewyddid yn flynyddol (gweler nodiadau isod). Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach nid ydym byth wedi cael gwaharddiad go iawn; yn lle hynny mae'r byd yn lle peryclach oherwydd i fwy a gwaeth arfau niwcliar gael eu datblygu yn sgîl profi cyson. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf ymddengys i'r mudiad heddwch anwybyddu'r angen am *waharddiad cyffredinol ar brofi arfau niwcliar* gan ganolbwyntio ar wrthwynebu'r arfau newydd yn hytrach na wynebu'r mater holl bwysig hwn.

Yn natganiad gwirfoddol Rwsia yn Awst 1985 na fyddai'n profi'r un arf niwcliar am flwyddyn, gwelwyd gobaith llwyddiant o'r diwedd yn y trafodaethau maith. Cafwyd estyniad yng nghyfnod y gwaharddiad hyd Ionawr 1987 ond oherwydd gwrthwynebiad Prydain ac America gorfodwyd Gorbachev i roi diwedd ar y polisi oherwydd gwelai ym mharhad America i brofi ei harfau fygythiad difrifol i ddiogelwch Rwsia. Yr un pryd cynigiodd ailsefydlu'r polisi'n syth cyn belled â bod America'n gwneud yr un peth. Atebodd America drwy ddweud na fyddai ond yn trafod lleihau nifer a maint y bomiau a brofid, nid gwaharddiad llwyr. Holl bwrpas gwaharddiad o'r fath yw atal 'gwelliannau' pellach. Dim ond y gwaharddiad go iawn sy'n dderbyniol i'r mudiad heddwch. Mor ddiweddar â'r haf hwn rhoddodd Rwsia gynnig o'r fath gerbron. Mehefin 10fed, yn Genefa, dywedodd Vladimar Petrovsky, y dirprwy weinidog tramor, fod ei wlad yn barod i wahardd profi 'hyd yn oed heddiw' cyn belled â bod America'n gwneud yr un modd . . .

Byddai canlyniadau gwaharddiad o'r fath yn ysgubol, hyd yn oed gyda dim ond tair o'r pum gwlad sy'n meddu ar arfau niwcliar yn arwyddo. Mae'n bwysig iawn i'r gwledydd nad oes ganddynt arfau niwcliar a byddai'n atal eu lledaeniad. Unwaith y byddai America, Rwsia a Phrydain wedi cytuno gellid pwyso ar Ffrainc a China, ynghyd â'r gwledydd sydd bron wedi datblygu eu Bom eu hunain, i arwyddo hefyd. Byddai gwaharddiad llwyr yn rhwystr mawr i unrhyw wlad a ddymunai ddatblygu ei Bom ei hun.

Ni fu gwaharddiad Rwsia yn fethiant llwyr oherwydd gwnaeth i bobl feddwl a gweithredu. Unwaith eto mae gwir obaith y gwelir cytundebau diarfogi eleni a dylem bwyso am gynnwys gwahardd profi arfau fel rhan ohonynt. Yn Chwefror cychwynnodd CND Cymru betisiwn yn galw ar Brydain i 'beidio â phrofi arfau niwcliar a chynnig gwaharddiad llwyr yn y Cenhedloedd Unedig'. Cesglir enwau hyd yr Hydref pan gyflwynir y petisiwn i'r llywodraeth. Da chi, helpwch ni drwy gasglu enwau lle bynnag yr ewch chi . . . ewch â phetisiwn i'r gwaith, yr eglwys, y capel, y dafarn. Gofalwch ei bod ar gael pan ewch i weld y teulu neu ffrindiau, mynd ar fws, mynd i siopa neu fynd am dro i'r parc . . . Cysylltwch â'ch grŵp lleol: efallai y bydd stondin ganddynt . . . efallai eu bod angen help . . . a pheidiwch ag anghofio gyrru llythyr at y papur lleol a'r papur bro. Po fwyaf o sylw gawn ni, mwyaf o enwau gawn ni hefyd. Rydan ni'n dibynnu arnoch CHI.

**Hydref 10** 11 am. Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd. Cyflwyno deiseb Gwahardd Arbrofion Niwcliar.

### CEFNDIR

| | |
|---|---|
| **1958** | **Dechrau trafod** |
| **1959** | **America'n rhoi terfyn ar y cytundeb ond heb ailddechrau tanio.** |
| **1960** | **Ffrainc yn ffrwydro ei bom niwcliar gyntaf a thri phrawf arall yn dilyn.** |
| **1961** | **Rwsia'n ailddechrau profi a dweud mai ffrwydradau Ffrainc a gelyniaeth NATO oedd y rheswm. Bythefnos yn ddiweddarach ailddechreuodd America.** |
| **1963** | **Yn dilyn argyfwng Cuba dechreuwyd trafod eto a chyhoeddodd Kennedy ei fod am atal profi arfau uwchlaw'r ddaear. Arwyddwyd cytundeb i wahardd profi arfau uwchlaw'r ddaear, yn y gofod ac o dan y môr gan America, Rwsia a Phrydain.** |
| **1974** | **Rwsia a Phrydain yn arwyddo cytundeb rhannol yn cyfyngu ar ddatblygu profion ond ni chafodd ei gadarnhau gan America.** |
| **1976** | **Cytundeb rhwng Rwsia ac America yn cyfyngu ar brofion tanddaearol i bwrpasau heb fod yn filwrol yn cael ei arwyddo ond heb ei gadarnhau gan America. Fodd bynnag dywedodd y ddwy wlad y cytunent ag ysbryd y cytundeb.** |
| **1977** | **America, Rwsia a Phrydain yn ailddechrau trafod gwaharddiad cyffredinol ar brofion.** |
| **1980** | **Y trafodaethau yn dod i ben gyda newid llywodraeth yr America. Penderfynodd Reagan a'i gynghorwyr gerdded allan o'r trafodaethau ac yn 1982 dywedodd nad oedd ganddo unrhyw fwriad ailgychwyn trafod oherwydd fod gwaharddiad cyffredinol yn nod pell iawn ganddo.** |

# 'GLAS NÔS'

Cyhoeddir yr antholeg o farddoniaeth yn ymwneud â heddwch, dan olygyddiaeth Menna Elfyn a Nigel Jenkins. Bwriadwn drefnu dwy noson i ddathlu'r digwyddiad, y naill yng Nghaerdydd ar yr 17eg o Orffennaf (St Stevens Church, Bute Town), a'r llall yn ardal Porthmadog (Yr Oakley Arms, Tanybwlch) ar yr 31ain o Orffennaf.

Y mae'r teitl 'Glas Nôs' yn deillio o'r Glastnost, yr ysbryd newydd a welir ar gerdded yn Rwsia; ac y mae hynny yn peri gobaith a llawenydd i bawb sy'n dyheu am fyd a sylfaenir ar gyd-ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth.

Mae 'na arwyddocad i'r teitl Cymraeg. Ni ellir amau ei bod yn nos arnom. Diffyg dealltwriaeth rhwng Gorllewin a Dwyrain. Apartheid yn Ne Affrica. Gormes, trais ac ecsploitio yn y gwledydd sy'n datblygu. Miliynau yn marw o newyn a thlodi. Pentyrru arfau a chysgod yr Armagedon Niwcliar yn lledu ar draws ein byd. Ond mae 'na oleuni. Rhan o'r goleuni yw Cymru Ddi-Niwcliar. Gobeithiwn y bydd y gyfrol yn profi'n ysbrydoliaeth wrth i ni geisio creu realiti o'r egwyddor . . . ac wrth i ni ddwyn pwysau ar lywodraethau'r Gorllewin i ymateb yn gadarnhaol a chreadigol i gynigion diarfogi gweinyddiaeth Michal Gorbachov.

Mawr yw ein diolch i'r golygyddion. Hyderwn y bydd y gyfrol yn llwyddiant ac y bydd yn profi'n ysbrydoliaeth i'r Mudiad Heddwch yng Nghymru.

*Rhodri Glyn Thomas*

# Adroddiad o Gynhadledd Flynyddol CND Gogledd Iwerddon

Yn dilyn cyfnod heb fawr ddim gweithgareddau, ailsefydlwyd CND Gogledd Iwerddon mewn cynhadledd arbennig yn Ebrill 1986. Ers hynny tyfodd a datblygodd i fod yn rhan bwysig o CND Prydain. Bellach mae ganddynt 12 grŵp gyda dros 500 o aelodau.

Ynghyd â'r gwledydd Celtaidd eraill sy'n ffinio â Môr Iwerddon, gwahoddwyd CND Cymru i yrru cynrychiolydd i Belfast i'w Cynhadledd flynyddol, Ebrill 25ain, 1987.

Rydan ni yma yng Nghymru yn wynebu rhai problemau unigryw wrth drefnu mudiad cenedlaethol. Gall y pellter o Fôn i Went, er enghraifft, wneud trefnu protest genedlaethol yn anodd tu hwnt. Mae hefyd broblemau arbennig dwyieithrwydd. Fodd bynnag nid yw'n problemau ni'n ddim o'u cymharu â thrafferthion pobl Gogledd Iwerddon wrth drefnu eu mudiad heddwch. Mae rhai aelodau'n perthyn i CND Llundain, rhai i CND Iwerddon ac eraill i CND Gogledd Iwerddon. Mae hefyd, wrth gwrs, y rhaniad mawr rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid a phrinder pleidiau a gwleidyddion blaengar yn y gymuned Brotestanaidd. Ar ben hyn i gyd nid yw Stormont na'r Cyngor etholedig yn cyfarfod yn Belfast. Wrth gwrs, rydym yn wynebu'r un llywodraeth ganolog a'i hagwedd gibddall at ddiarfogi niwcliar!

Oherwydd y sefyllfa wleidyddol yn ôl pob tebyg, mae gan yr Undebau Llafur ran fawr yn CND Gogledd Iwerddon. Mae'n un o dair adran arbennig ynghyd ag CND Ifanc ac CND Cristnogol. Gwelir cymysgedd o Brotestaniaid a Phabyddion yn rhengoedd y swyddogion a'r aelodau a bu'r Crynwyr yn gefnogol tu hwnt.

Maent yn ymwybodol iawn o'r llygredd cynyddol sy'n cael ei ryddhau i Fôr Iwerddon a'r hyn sy'n digwydd yn Sellafield a phenderfynwyd cychwyn ymgyrch gref i'w gau. Gallwn ni eu cefnogi yn hyn o beth oherwydd penderfynasant gydweithio â mudiadau heddwch gwledydd ac ynysoedd Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd.

Mae Swyddfa Gogledd Iwerddon yn bwriadu adeiladu tri byncar am gost o £7–8 miliwn, gan ddechrau'r haf hwn. Teimlid fod gwrthwynebiad i'r cynllun yn cynyddu a bydd 'ymgyrch wrth-fyncar' yn rhan bwysig o'u cynlluniau eleni. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr yn hanes byncar Caerfyrddin a gofynnwyd am ein cymorth.

Cafwyd trafodaeth hir ar fater ynni niwcliar/ arfau niwcliar a chlywyd lleisio barnau tra amrywiol. Nid oes ganddynt atomfeydd, felly mae eu sefyllfa yn wahanol i ni. Yn y diwedd penderfynwyd ymgyrchu yn erbyn y ddau ond na fyddid yn newid eu cyfansoddiad i gynnwys gwrthwynebu ynni niwcliar.

Cawsom groeso cynnes iawn a chredaf iddo fod yn ymweliad buddiol iawn i CND Cymru ac CND Gogledd Iwerddon.

*Rhoda Jones*

# Diwrnod Rhyngwladol y Merched dros Heddwch a Chyfiawnder

*Mai 23 1987*

Fe ailsefydlwyd Gwersyll Heddwch Merched Breudeth ar arfordir hyfryd Sir Benfro dros benwythnos Gŵyl y Banc ym Mai. Daeth pump ar hugain o ferched i adnewyddu cysylltiad â'i gilydd o amgylch tân y gwersyll, ac â heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn trwy'r ffens: roedd peth o honno wedi cael ei datod mewn ffordd ddirgel. Wrth i ni ddod wyneb yn wyneb â'r gweithwyr Americanaidd roedd saith rhan o wyth o'r orsaf dracio llongau tanfor yn hymian dan ein traed.

Merched wedi'u cadwyno i'r ffens yn Nhrawsfynydd ar Fai 23 – yn tanlinellu'r cysylltiad rhwng ynni niwcliar ac arfau niwcliar.

Ddydd Sadwrn 23 Mai, daeth Grŵp Heddwch Merched Caerdydd at ei gilydd yn yr Hayes, Caerdydd, i gefnogi 'Cysylltiadau Merched' ac i gydnabod 'Diwrnod Rhyngwladol y Merched dros Heddwch a Chyfiawnder'.

Ar y diwrnod diflas, gwlyb hwnnw, roedd ugain o ferched yn gwneud sbloet o liw efo polyn Calan Mai lliwgar oedd yn cynnal chwech rhuban o wnâi'r cysylltiadau lleol yn eglur: Toriadau mewn addysg – achubwch ysgol Howardian; prinder tai – dim gwely a brecwast; ynni niwcliar – cau pyllau; torri'n ôl mewn ysbytai – rhestrau aros yn tyfu; cau pyllau – colli cymunedau.

Roedd merched yn erbyn cau pyllau yn deisebu pobl ar y stryd ynglŷn â chau pyllau ac ynni niwcliar.

Roedd taflen efo lluniau yn esbonio'r cysylltiadau i'r siopwyr, a rhoddwyd balwnau heliwm gyda neges a rhif ffôn yn sownd iddyn nhw, i'r plant. Yr unig un gafodd ei gydnabod hyd yn hyn oedd un y cafwyd hyd iddo gan un o drigolion Caerdydd a gredai iddo ddod o Hinckley Point.

# September Seminars

'The Way Forward – Disarmament and the Peace Movement in Wales' — A day's discussions.
Sept 19th Colwyn Bay (Nant y Glyn Church) 10.30am
Sept 20th Welshpool (The Raven, Raven Sq.) 10.30am
Sept 26th Llantrisant (venue to be arranged) 10.30am
Sept 27th Carmarthen (HTV Centre) 10.30am
Open to all members and supporters. Contact Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog (0766) 831833 for details.

**GWNEWCH GYMWYNAS DRWY LENWI FFURFLEN AELODAETH DROS EICH FFRINDIAU**

Enw ........................................................................ (Llythrennau bras)

Cyfeiriad ........................................................................

........................................................................

Sir .................................... Côd Post .................................... (Pwysig)

AELODAETH
Oedolyn £9. Dau berson yn yr un cyfeiriad £12. Myfyriwr £3.
Heb waith a phensiynydd £2. Ieuenctid CND (21 neu iau) £1.
Dymunaf roi rhodd. Amgaeaf £.............. Aelodaeth. £.............. Rhodd.
Gwneier sieciau'n daladwy i : CND Cymru a danfoner i
CND Cymru, 2 Plasturton Avenue, Pontcanna, Caerdydd CF1 9HH.

CND CYMRU

**Os oes grwpiau eisiau copiau ychwanegol o Ymgyrch Cymru (15c yr un) llenwch y ffurflen a'i ddychwelyn i:- Rhoda Jones, Ty Isaf, Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.**

**Enw'r Grwp** ..................

**Cyfeiriad** ..................

..................

..................

**Nifer o gopiau** ..................

# AMDDIFFYN SIFIL YNG NGHYMRU YN 1987

Mae'r llywodraeth yn colli amynedd â Chymru. Yn y gorffennol bu cynghorau yng Nghymru yn amlwg am eu diffyg brwdfrydedd wrth ymateb i geisiadau'r Swyddfa Gartref ar iddyn nhw baratoi ar gyfer rhyfel niwcliar.

Ond mae canllawiau'r llywodraeth yn awgrymu y gallan nhw gosbi trwy ddal grantiau'n ôl, neu yrru cyrff allanol ar draul y cyngor os bydd awdurdodau lleol yn gwrthod, neu'n methu ymgymryd â'u dyletswyddau ym myd cynllunio amddiffyn sifil.

Mae Pwyllgor Llywio Cenedlaethol yr Ardaloedd Di-Niwcliar yn awgrymu felly fod cynghorau'r ardaloedd hyn yn cynllunio'n drwyadl, yn gwbl onest ac yn egwyddorol ar gyfer amddiffyn sifil. Trwy ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan yr 'All-Wales Planning Assumptions Study' (a gomisiynir ar hyn o bryd gan fforwm Cymru'r Awdurdodau Di-Niwcliar, gall cynghorau gwblhau eu dyletswydd a rhoi gwybodaeth hollol gywir ynglŷn â sut fydden nhw'n gweithredu'u rheolau, yn dilyn ymosodiad niwcliar ar eu hardal neu le cyfagos. Mi fyddai'n ddiddorol iawn i'r cyhoedd wybod sut y byddai Cyngor Meirionnydd yn cynllunio rhwystro clefydau yn stîl ymosodiad confensiynol neu niwcliar ar Bwerdy Trawsfynydd, neu sut y byddai Penfro yn cael gwared ar olion dynol wedi ymosodiad Niwcliar ar Freudeth.

Yn eironig, mae gofyniadau newydd y llywodraeth yn rhoi cyfle mawr i ni yn CND Cymru i bwyso ar ein cynghorau – i'w cynorthwyo i wybod mwy am effeithiau rhyfel niwcliar, a'u hannog i gyhoeddi'u canlyniadau er mwyn i bobl Cymru gael gwybod beth yn union mae'r llywodraeth yn gofyn iddyn nhw'i wneud.

Os ydan ni am fanteisio ar y cyfle – mae **angen eich help.** Peidiwch â gadael y gwaith i eraill.

A. Casglwch gymaint o wybodaeth fedrwch chi am amddiffyn sifil.

B. Ysgrifennwch at eich cynghorwyr a gofynnwch iddyn nhw:
1. A ydyn nhw'n ymwneud â Fforwm NFZ Cymru.
2. Ydyn nhw'n cymryd rhan yn yr Astudiaeth Gynllunio trwy Gymru.
3. A fydden nhw'n fodlon eich cyfarfod i drafod pa wybodaeth sy'n berthnasol i'w cynlluniau, a sut fydden nhw'n cael hyd iddo.

C. Ceisiwch wybod pa bryd fydd cyfarfodydd perthnasol y Cyngor. Ewch yno.

Cofiwch roi gwybod i ni beth 'dach chi'n ei wneud.

---

Mae'r 'Rhaglen Weithredu' yn ganllawiau i'r Swyddfa Gartref wrth iddyn nhw geisio arolygu cynllunio amddiffyn sifil yr awdurdodau lleol. Maen nhw'n dilyn yr amserlen hon:

**Erbyn 1af Hydref 1987**
I roi gwybodaeth sylfaenol ynghylch bwriad yr holl gynlluniau, a'r drefn fydd angen i'w gwireddu, a darparu copïau o gynlluniau manwl ar gyfer pynciau arbennig fel y dangosir isod.

**Erbyn 1af Ebrill 1988**
Casglu a dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â chanlyniad yr ymosodiad.
Rheoli a chyd-gysylltu gweithgareddau.
Cyngor i'r cyhoedd.

**Erbyn 1af Hydref 1988**
Llety.
Rhwystro clefydau.
Cael gwared ar olion dynol.

**Erbyn 1af Ebrill 1989**
Achub.
Trwsio a chlirio eiddo.
Gwirfoddolwyr.

**Erbyn 1af Hydref 1989**
Ymochelfeydd.
Gwasanaethau Angenrheidiol Eraill.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Grŵp Amddiffyn Sifil CND Cymru,
53 Heol Dwr, Caerfyrddin, Dyfed. 0267 234158.

*Hilary Blunden*
*Sian ap Gwynfor*
*Cen Llwyd*

---

## Cais am gefnogaeth i Seland Newydd Ddi-Niwcliar!

Mae gweithwyr heddwch yn Seland Newydd wedi galw ar gefnogwyr o Ranbarthau Di-Niwclear eraill i anfon gair o gefnogaeth at y rhai sy'n gweithio'n ddygn i sicrhau fod Seland Newydd yn parhau'n Ddi-Niwclear. Mae etholiad cyffredinol yno ym mis Medi yn gwneud hyn yn bwysicach fyth.

Cyn bo hir bydd grwpiau CND Cymru yn cael cardiau ac amlenni *am ddim* ynghyd ag enwau a chyfeiriadau i'w hanfon atynt. Bydd hefyd restr o bapurau newydd y gellir anfon llythyrau o gefnogaeth i'w cyhoeddi. Yr unig gost i grwpiau neu unigolion fydd pris stamp (awyr), felly gyrrwch gymaint o gardiau ag y medrwch!
*Martin Ashby*

Hoffem gynnwys Tudalen Lythyrau ymhob rhifyn.

Anfonwch eich sylwadau a newyddion ar gyfer y rhifyn nesaf at y Grŵp Golygyddol, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd (076 676) 2739, cyn Awst 21.

Byddem yn falch o unrhyw hysbysebion – £15 am ⅛ tudalen, £25 am ¼ tudalen.

### ENGLYN

O Dduw, maddau! Mi wyddom am
eu hing
Ymhell. Ond rhad arnom!
Er eu heisiau, mi droesom
Bris eu byw yn bres y Bom.
*Gerallt Lloyd Owen.*

# CYMRU YN ERBYN ARBROFION NIWCLIAR
# DEISEB GENEDLAETHOL

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar lywodraeth ei Mawrhydi i ddiddymu arbrofion niwcliar ac i hybu, drwy'r Cenhedloedd Unedig, gytundeb i wahardd arbrofion niwcliar.

| ENW | CYFEIRIAD |
|---|---|
| | |

I'w ddychwelyd i: C.N.D. Cymru
2 Plasturton Avenue,
Pontcanna,
Caerdydd CF1 9HH

erbyn Medi 1af